

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Rhagfyr 13eg 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones, Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Rhys Richards, Geraint Davies, Gwilym Davies, Jean Roberts ac Euros Puw.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

#### a) Binau Halen.

Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd yn nodi eu costau diweddaraf ar gyfer cyflenwi halen i'r binau. Cytunwyd yn unfrydol i ymateb yn nol i gadarnhau nad oedd bwriad gan y Cyngor Cymuned i dalu na chymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth. Er nad oes dyletswydd statudol gan Gyngor Gwynedd i gyflenwi'r gwasanaeth binau halen, roedd dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i ofalu am briffyrdd y Sir, a thrwy hynny ofalu am y rhai sy'n defnyddio'r ffyrdd rheini yn ystod y gaeaf. Nid oedd yn deg fod trethdalwyr yn gorfod talu eilwaith i ofalu am y ffyrdd trwy godi'r Praesept a hwythau yn cael eu trethu eisoes am wasanaeth cynnal a chadw'r priffyrdd.

#### b) Trefniadau gwyro traffig Dwr Cymru.

Derbyniwyd ymateb gan Dwr Cymru yn diolch i'r Cyngor am dynnu eu sylw i'r diffyg trefniadau cywiro traffig pan oedd rhaid cau'r ffordd i atgyweirio peipen ddŵr ger pentref Rhyduchaf yn ddiweddar. Nid oeddent yn ymwybodol o'r mater ac y byddent yn pasio' sylwadau ymlaen i'r adrannau perthnasol fel na fyddai yn digwydd eto.

#### c) Canolfan ail-gylchu, Y Bala.

Cafwyd cadarnhad gan y swyddogion yng Nghyngor Gwynedd nad oedd bwriad i godi tal ar ddefnyddwyr i ddod a rhai eitemau i'r ganolfan.

### ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

#### a) Cyngor Gwynedd.

- i) Llythyr yn eu cyngori o'r newidiadau i ddod yn y trefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus.
- ii) Etholiadau Cyngor Cymuned 2017 - gwybodaeth am y costau a fyddai ynghlwm a'r etholiadau ym mis Mai 2017.
- iii) Bod yn Gyngorydd - Gwybodaeth am eu digwyddiadau i geisio annog aelodau o grwpiau sydd yn cael eu tangynrychioli i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr.
- iv) Cae chwarae Parc - derbyniwyd e-bost yn mynegu pryder swyddogion Cyngor Gwynedd i'r drymiau gwag a oedd wedi cael eu gadael ar adegau gwahanol ar dir y cae chwarae yn ddiweddar.
- v) Gwahoddiad i fynychu cyflwyniadau gan y Comisiwn Ffiniau ym mis Chwefror.

#### b) Amrywiol

- i) Hunaniaith – Gwybodaeth am eu gweithdai i drafod diogelu'r Iaith Gymraeg.
- ii) Cyfoeth Naturiol Cymru - E-bost yn ein cyngori bod eu rhif ffôn mewn argyfwng wedi newid.
- iii) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru - E-bost yn cyngori'r Cyngor eu bod wedi cyhoeddi eu dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer.

### iii) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

NP5/72/237B – Cais ol-weithredol ar gyfer garej a storfa gardd. 8 Tai Rhos, Parc, Y Bala.

**iv) Materion Ariannol.**

a) Cytunwyd i dalu costau TWE

b) Derbyniwyd cais ariannol gan Croes Goch Brydeinig. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 14eg yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.**